# Powys Arts Forum

Annual Report 2010 Addrodiad Blynyddol

# Fforwm Powys Celf

POWYS ARTS FORUM LIMITED

*Registered Charity Number1119347*
*Company Limited by Guarantee 0598 5004*

TRUSTEES' REPORT and
FINANCIAL STATEMENT

for the year 01/04/09 - 31/03/10

## 1. INTRODUCTION : STRUCTURE, GOVERNANCE AND MANAGEMENT

Powys Arts Forum is a Company limited by Guarantee and a registered Charity. The Directors of the Company are the Trustees of the Charity. Their number is no less than three, with no upper limit.

The following Trustees were appointed at the Annual General Meeting held on 3 October 2009:

Mary Elster
Philip Freeman
Elizabeth Pugh
Virginia Graham
Blue MacAskill
Hazel James

At the subsequent meeting of the Board of Trustees, the following were re-appointed as officers :

Chair : Virginia Graham
Treasurer : Philip Freeman
Secretary : Mary Elster

The day-to-day management of the Company is in the hands of the officers, who are in regular contact and consultation, between themselves and other Trustees. The Trustees held five fully quorate meetings during the period covered by this report. These meetings receive full financial and operational reports, as well as discussing matters of relevance and forward planning.

The Board is mindful of its responsibilities for the training of charity trustees. The majority of the Trustees have experience in the running of a charity, through their involvement in other charitable organisations. All new trustees on appointment are given a briefing paper on their role and its legal implications, and risk management, which was fully discussed. Current and on-going updates in charity law are monitored, and Trustees are kept up-to-date on these matters.

*below:new website menu*

FFORWM POWYS CELF

*Elusen Gofrestredig Rhif 1119347*
*Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 0598 5004*

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR
a DATGANIAD ARIANNOL

ar gyfer y flwyddyn 01/04/09 - 31/03/10

## 1. CYFLWYNIAD : STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant yw Fforwm Celf Powys, ac mae'n Elusen gofrestredig. Cyfarwyddwyr y Cwmni yw Ymddiriedolwyr yr Elusen. Mae o leiaf dri ohonynt, ac nid oes uchafswm.

Penodwyd yr Ymddiriedolwyr a ganlyn yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2009:

Mary Elster
Philip Freeman
Elizabeth Pugh
Virginia Graham
Blue MacAskill
Hazel James

Yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Ymddiriedolwyr, ailbenodwyd y canlynol yn swyddogion:

Cadeirydd: Virginia Graham
Trysorydd: Philip Freeman
Ysgrifennydd: Mary Elster

Y swyddogion sy'n gyfrifol am reoli'r Cwmni o ddydd i ddydd, ac maent yn cysylltu ac yn ymgynghori'n rheolaidd â'i gilydd ac ag Ymddiriedolwyr eraill. Cynhaliodd yr Ymddiriedolwyr bum cyfarfod, â chworwm llawn, yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ei gwmpasu. Mae'r cyfarfodydd hyn yn derbyn adroddiadau llawn ar gyllid a gweithrediadau, a thrafodir materion perthnasol a chynlluniau ar gyfer y dyfodol hefyd.

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau am hyfforddi ymddiriedolwyr yr elusen. Mae gan fwyafrif yr Ymddiriedolwyr brofiad o redeg elusen, trwy eu hymwneud â sefydliadau elusennol eraill. Pan benodir unrhyw ymddiriedolwyr newydd, rhoddir papur briffio iddynt ynglŷn â'u rôl a'i goblygiadau cyfreithiol, a thrafodir materion rheoli risg yn llawn. Mae cyfraith elusennau gyfredol, a'r wybodaeth ddiweddaraf barhaus amdani, yn cael eu monitro, a sicrheir bod yr Ymddiriedolwyr yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf yn hyn o beth.

*isod: dewislen gwefan newydd*



## 2. OBJECTS AND INITIATIVES

The objects of Powys Arts Forum Limited are to advance the education of the public in the arts, principally, but not exclusively, in Powys, by promoting greater understanding of the arts in Powys and elsewhere, by increasing participation in the arts in Powys and elsewhere, and by communicating the views and needs of individuals and organisations in Powys involved in the arts.

The following paragraphs outline the activities which has been undertaken in pursuit of these objects.
*Note*: In subsequent paragraphs the Company is referred to as the Forum.

**Art Matters : Autumn seminar -** The Forum has established a tradition of using the day of its Annual General Meeting as an opportunity to conduct an analysis of its work in the previous year, and incorporate elements of training and information-sharing. The event held at Llandewi Village Hall in October 2009 was no exception these features. There were presentations from artists who had been funded through the Chance to Create/Cyfle i Greu scheme, giving accounts of the impact which this funding had had on their work. These included a presentation by Sean Harris, whose animations based on Welsh legends had been shown at the Smithsonian Institute, Washington, alongside the work of other major Welsh artists. Plans were initiated for the 2010 conference. A valuable training session was delivered by Rob Picken, on the establishment and use of websites as a marketing tool.

**Chance to Create/Cyfle i Greu** - Work continued on the delivery of this major delegated grant scheme for the benefit of artists throughout Powys. The Forum had collaborated with the arts officers of Powys County Council in the design and development of this scheme, which is part funded through the Rural Development Plan for Wales 2007-2013, financed by the European Union and Welsh Assembly Government. A partnership group, consisting of the Arts Service of Powys County Council, the Chair and Treasurer of the Forum, and Lee Price - Axis 3 Programme Manager for Powys - monitored the progress of the scheme between meetings of the awarding panel.

## 2. AMCANION A MENTRAU

Amcanion Fforwm Celf Powys Cyfyngedig yw hyrwyddo addysg y cyhoedd yn y celfyddydau, yn bennaf, ond nid yn unig, ym Mhowys, trwy hybu gwell dealltwriaeth o'r celfyddydau ym Mhowys a thu hwnt, trwy gael mwy o bobl i gyfranogi o'r celfyddydau ym Mhowys a thu hwnt, a thrwy gyfleu barn ac anghenion unigolion a sefydliadau ym Mhowys sydd a wnelo â'r celfyddydau.

Mae'r paragraff a ganlyn yn amlinellu'r gweithgareddau sydd wedi mynd rhagddynt er mwyn cyflawni'r amcanion hyn.
*Sylwch:* Yn y paragraffau sy'n dilyn, defnyddir 'y Fforwm' wrth gyfeirio at y Cwmni.

**Materion Celf : Seminar yr hydref -** Mae'r Fforwm wedi sefydlu traddodiad o ddefnyddio diwrnod ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol fel cyfle i ddadansoddi ei waith yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac ymgorffori elfennau hyfforddi a rhannu gwybodaeth. Nid oedd y digwyddiad a gynhaliwyd yn Neuadd Pentref Llandewi ym mis Hydref 2009 yn eithriad i hyn. Cafwyd cyflwyniadau gan artistiaid a oedd wedi'u hariannu trwy'r cynllun Cyfle i Greu/Chance to Create, gan adrodd ar effaith yr arian hwn ar eu gwaith. Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyniad gan Sean Harris, yr oedd ei animeiddiadau seiliedig ar chwedlau Cymreig wedi'u dangos yn Sefydliad Smithsonian, Washington, ochr yn ochr â gwaith artistiaid Cymreig eraill o bwys. Cychwynnwyd ar y cynlluniau ar gyfer cynhadledd 2010. Cyflwynodd Rob Picken sesiwn hyfforddi gwerthfawr ar sefydlu a defnyddio gwefannau fel offeryn marchnata.

**Cyfle i Greu/Chance to Create** – Parhaodd y gwaith ar gyflenwi'r cynllun grant dirprwyedig o bwys hwn er budd artistiaid ledled Powys. Bu'r Fforwm yn cydweithio â swyddogion celfyddydau Cyngor Sir Powys wrth gynllunio a datblygu'r cynllun hwn, a ariennir yn rhannol trwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013, â chyllid yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bu grŵp partneriaeth, yn cynnwys Gwasanaeth Celfyddydau Cyngor Sir Powys, Cadeirydd a Thrysorydd y Fforwm, a Lee Price – Rheolwr Rhaglen Echel 3 Powys – yn monitro cynnydd y cynllun rhwng cyfarfodydd y panel dyfarnu.

Yn ystod y deuddeg mis y mae'r adroddiad hwn yn eu cwmpasu, ariannwyd 50 o brosiectau â grantiau a ddaeth i gyfanswm o £235,000. Cafodd sbectrwm eang o sefydliadau celfyddydau ac artistiaid fudd o hyn, yn amrywio o arian partneriaeth y cynllun i sefydlu Cerddorfa Siambr



During the twelve months covered by this report, 50 projects were funded, with grants totalling £235,000. A wide spectrum of arts organisations and artists benefitted from this, from the scheme's partnership funding for the set-up of Mid Wales Chamber Orchestra, through the funding for purchasing of new equipment such as specialist kilns, website and marketing initiatives, to support for a stand-up comedy circuit in Powys. This injection of targeted funding has had a strong and beneficial impact on the work of artists in the county, enabling many to raise their profiles, and initiate new developments in their work, supporting sustainability and sound business practice. Equally, the impact on the economy of the region is further evidence of the importance of the arts in the regeneration of this rural area.

An important element of the scheme has been the use of specialist mentors, to give advice and support to grant recipients. This has injected a new level of independent and focussed training into the support of Powys artists, and is a feature of the work of the Forum which it wishes to develop in the future.

**Strategic Planning** - Alongside its own strategic planning, for which special meetings were held outside the management business of the Board, Forum members and Trustees has been involved in discussion of the County's forward planning for the arts. Two trustees with particular expertise joined the advisory panel for the Powys Youth Arts Strategy. The Forum also collaborated with the County's Arts and Culture Manager in arranging and facilitating a day's workshop with invited artists for input into the current revision of the county's arts strategy.

In line with this element of its work, the Forum initiated a meeting with the current Director of the Arts Council of Wales, and its Mid and North Wales regional officers. This provided an opportunity for a useful exchange of information, updating the Council on the work of the Forum. Subsequently, a meeting was held in North Wales with Arts Development Officers Gwenno Jones (Flintshire) and Sian Hughes(Gwynedd) at ACW offices in Colwyn Bay. This was to explain the structure of the very successful *Helfa Gelf* arts trail in North Wales, which has had input into the planning of the next Powys Arts Month.

In conjunction with the early marketing for the Conference (see below) and to encourage recruitment of members the Forum commissioned the design of a leaflet, which has helped to increase the membership.

During the year, planning was initiated for the Conference, to be held in June 2010, which will be reported on in next year's Trustees' Report.



Canolbarth Cymru; ariannu prynu offer newydd fel odynau arbenigol, gwefannau a mentrau marchnata; a chefnogi cylchdaith digrifwyr ar eu sefyll ym Mhowys. Mae'r hwb ariannol hwn a dargedir wedi cael effaith gref a buddiol ar waith artistiaid yn y sir, gan alluogi llawer ohonynt i gynyddu eu proffil, a rhoi cychwyn i ddatblygiadau newydd yn eu gwaith, gan gefnogi cynaliadwyedd ac arfer busnes cadarn. Yr un mor bwysig, mae'r effaith ar economi'r rhanbarth yn dystiolaeth bellach o bwysigrwydd y celfyddydau i adfywio'r ardal wledig hon.

Un elfen bwysig o'r cynllun fu defnyddio mentoriaid arbenigol, i roi cyngor a chymorth i'r rheiny a dderbyniodd grant. Mae hyn wedi ennyn mwy o hyfforddiant annibynnol â ffocws i gefnogi artistiaid Powys, ac mae'n nodwedd o waith y Fforwm y mae'n dymuno ei datblygu yn y dyfodol.

**Cynllunio Strategol** – Yn ogystal â'i gynllunio strategol ei hun, sef mater y cynhaliwyd cyfarfodydd arbennig y tu allan i fusnes rheoli'r Bwrdd i'w drafod, bu aelodau ac Ymddiriedolwyr y Fforwm yn trafod blaengynlluniau'r Sir ar gyfer y celfyddydau. Ymunodd dau ymddiriedolwr sydd ag arbenigedd penodol â'r panel cynghori ar gyfer Strategaeth Celfyddydau Ieuenctid Powys. Bu'r Fforwm hefyd yn cydweithio â Rheolwr Celf a Diwylliant y Sir wrth drefnu a hwyluso gweithdy undydd gydag artistiaid gwadd i gyfrannu at yr adolygiad presennol o strategaeth celfyddydau'r sir.

Yn unol â'r elfen hon o'i waith, fe drefnodd y Fforwm gyfarfod â Chyfarwyddwr presennol Cyngor Celfyddydau Cymru, a'i swyddogion rhanbarthol yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru. Roedd hyn yn gyfle i gyfnewid gwybodaeth ddefnyddiol, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am waith y Fforwm. Wedi hynny, cynhaliwyd cyfarfod yng Ngogledd Cymru â Swyddogion Datblygu'r Celfyddydau Gwenno Jones (Sir y Fflint) a Sian Hughes (Gwynedd) yn swyddfeydd CCC ym Mae Colwyn. Diben hyn oedd esbonio strwythur y llwybr celf hynod lwyddiannus yng Ngogledd Cymru, sef *Helfa Gelf*, a fu'n ystyriaeth wrth gynllunio Mis Celf nesaf Powys.

Ar yr un pryd â chynhyrchu deunydd marchnata cynnar ar gyfer y Gynhadledd (gweler isod), ac er mwyn annog recriwtio aelodau, fe gomisiynodd y Fforwm waith dylunio taflen, sydd wedi helpu i gynyddu aelodaeth.

Yn ystod y flwyddyn, dechreuwyd cynllunio ar gyfer y Gynhadledd, i'w chynnal ym mis Mehefin 2010, a bydd adroddiad ar hon yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr y flwyddyn nesaf.

## 3. FINANCE AND FUNDRAISING

This section should be read in conjunction with the accounts provided.

The Forum continues to enjoy support from Powys County Council through the Community Enablement Support Fund which is provided to support an agreed programme of work on an annual basis.

It has also received invaluable support from the Llysdinam Trust. Any support for the future from the Arts Council of Wales will have to be tied very closely with its strategic priorities. As funds become tighter this will become common across all programmes. Possibilities under Business Plan 2 of the Rural Development Plan for Wales (2011-13) will similarly be more narrowly focused.

The Forum is conscious of the importance of inclusivity which is why the annual membership rate has been kept at an almost token level of £5. To balance this we have been asking members to pay for the events they attend at a more realistic, though subsidised, rate. For this policy to work a good level of attendance is needed at events, and if this cannot be achieved the Forum may want to look at reviewing this policy. The attendance at the Conference and the buy-in to the 2011 Arts Month will give good indications as to the viability of this approach.

The Forum has a reserves policy of £2000 which it estimates would provide running costs at the present level for 18 months.

## 4. WEBSITE and MEMBER SUPPORT

The website (managed by Philip Freeman) is the major communication tool of the Forum.  This provides constantly updated news and information, covering the Forum's activities, and items of general interest concerning a wide variety of arts events and issues.  It is supplemented by a regular e-newsletter to members.

It is clear that awareness of the website continues to grow, and the website manager receives many requests for further information, and for website postings. To make management of this demand and content easier, and to provide opportunities for increased member participation a major re-design of the website took place in 2009-10.




## 3. CYLLID A CHODI ARIAN

Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â'r cyfrifon a ddarperir.

Mae'r Fforwm yn parhau i gael cymorth Cyngor Sir Powys trwy'r Gronfa Cymorth Galluogi Cymunedau a ddarperir i gefnogi rhaglen waith gytunedig bob blwyddyn.

Mae hefyd wedi derbyn cymorth hynod werthfawr oddi wrth Ymddiriedolaeth Llysdinam. Bydd yn rhaid i unrhyw gymorth ar gyfer y dyfodol oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru fod â chysylltiad agos iawn â'i flaenoriaethau strategol. Wrth i gronfeydd ddod yn dynnach, fe ddaw hyn yn beth cyffredin i bob rhaglen. Bydd gan bosibiliadau dan Gynllun Busnes 2 Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru (2011-13) ffocws culach tebyg.

Mae'r Fforwm yn ymwybodol o bwysigrwydd cynwysoldeb, a dyna pam mae cyfradd yr aelodaeth flynyddol wedi'i chadw ar lefel isel iawn, sef £5. Er mwyn cydbwyso hyn, rydym wedi bod yn gofyn i aelodau dalu am y digwyddiadau y maent yn eu mynychu ar gyfradd fwy realistig, er ei bod wedi'i chymorthdalu. Er mwyn i'r polisi hwn weithio, mae angen i nifer dda o bobl fynychu digwyddiadau, ac os na ellir cyflawni hyn, efallai y bydd y Fforwm am ystyried adolygu'r polisi hwn. Bydd nifer y bobl yn y Gynhadledd, a nifer y rhai a fydd yn archebu lle ar gyfer Mis Celf 2011, yn rhoi arwydd da o ba mor hyfyw yw'r dull hwn o fynd ati.

Mae gan y Fforwm bolisi cronfeydd wrth gefn o £2000, y mae'n amcangyfrif fyddai'n talu am gostau rhedeg ar y lefel bresennol am 18 mis.

## 4. GWEFAN a CHYMORTH I AELODAU

Y wefan (a reolir gan Philip Freeman) yw prif offeryn cyfathrebu'r Fforwm.  Mae'n darparu newyddion a gwybodaeth sy'n cael eu diweddaru'n gyson, gan gynnwys gweithgareddau'r Fforwm, ac eitemau o ddiddordeb cyffredinol ynglŷn ag amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a materion yn ymwneud â'r celfyddydau Hefyd, anfonir e-gylchlythyr at aelodau.

Mae'n eglur bod ymwybyddiaeth o'r wefan yn parhau i gynyddu, ac mae rheolwr y wefan yn derbyn sawl cais am fwy o wybodaeth, ac am gyhoeddi gwybodaeth ar y wefan.  Er mwyn ei gwneud yn haws rheoli'r galw hwn a'r cynnwys, ac er mwyn rhoi cyfle i aelodau gyfrannu

By its more advanced structure the site can now archive and link items more effectively. There is also a members area where messages can be exchanged and, following a request at the 2009 AGM, members can enter the dates of their own events and exhibitions.

A new feature of the website has been reviews and commentary by members on exhibitions, performances and other arts activities in the region. This disseminates information about current achievement, and helps to showcase the activities of artists and arts organisations throughout the county.

## 5. LANGUAGE POLICY

The Forum's language policy gives equal status to the Welsh and English languages.
All published material issued by the Forum is now bilingual. Major meetings have the services of a translator. Some areas of the policy are still in the process of implementation, in particular the use of the Welsh language on the website, and the Forum is aware that this is a matter which it needs to address. However, it remains the goal of the Forum to enable the views and needs of individuals and organisations to be presented in the language of their choice.

## 6. CONTACTS AND COLLABORATIONS

While the Forum is an independent organisation, its relationship with other statutory and independent bodies is vital to its continued ability to work for the benefit of the arts in Powys. Over the year subject to this report, it has maintained and built on its strong links with the arts officers of Powys County Council: as can be seen from earlier paragraphs, there has been sound collaborative working, and there is on-going contact between the Forum and these officers. Similarly, links with Glasu have been of mutual benefit.

Representation on the Powys Regeneration Partnership has given the whole question of the value of the arts to the local economy a much wider understanding amongst decision-makers. In addition the Forum participated in assessment not only for *Chance to Create/Cyfle i Greu* (see above) but also has representation on the Local Action Group (LAG) which oversees the Axis 4 programme, delivered by Glasu, which includes the grant schemes for *Culture, Heritage and Local Products* and *Festivals and Events* as well as many others.

mwy, aed ati i ailddylunio'r wefan yn helaeth yn 2009-10.

Gan fod strwythur uwch i'r wefan bellach, gall nawr archifo a chysylltu eitemau'n fwy effeithiol. Ceir yno hefyd ardal aelodau lle gellir cyfnewid negeseuon ac, yn sgil cais yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2009, gall aelodau gofnodi dyddiadau eu digwyddiadau a'u harddangosfeydd eu hunain.

Un nodwedd newydd y wefan yw adolygiadau a sylwadau aelodau ar arddangosfeydd, perfformiadau a gweithgareddau eraill y celfyddydau yn y rhanbarth. Mae hyn yn lledaenu gwybodaeth am yr hyn sy'n cael ei gyflawni ar y pryd, ac yn helpu i arddangos gweithgareddau artistiaid a sefydliadau'r celfyddydau ledled y sir.

## 5. POLISI IAITH

Mae polisi iaith y Fforwm yn rhoi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg.
Mae holl ddeunydd cyhoeddedig y Fforwm bellach yn ddwyieithog. Defnyddir gwasanaethau cyfieithu mewn prif gyfarfodydd. Rydym yn dal wrthi'n rhoi rhai darnau o'r polisi ar waith, yn enwedig defnyddio'r Gymraeg ar y wefan, ac mae'r Fforwm yn ymwybodol bod hyn yn fater y mae angen rhoi sylw iddo. Fodd bynnag, nod y Fforwm o hyd yw galluogi unigolion a sefydliadau i gyfleu eu barn a'u hanghenion yn eu dewis iaith.

## 6. CYSYLLTIADAU A CHYDWEITHIO

Er mai corff annibynnol yw'r Fforwm, mae ei berthynas â chyrff statudol ac annibynnol eraill yn hanfodol i'w allu i barhau i weithio er budd y celfyddydau ym Mhowys. Dros y flwyddyn y mae'r adroddiad hwn yn berthnasol iddi, mae wedi cynnal ac adeiladu ar ei gysylltiadau cryf â swyddogion celfyddydau Cyngor Sir Powys; fel y gellir gweld o baragraffau blaenorol, bu cydweithio cadarn, a bu cyswllt parhaus rhwng y Fforwm a'r swyddogion hyn. Yn yr un modd, mae cysylltiadau â Glasu wedi bod o fudd iddyn nhw ac i ninnau.

Mae cynrychiolaeth ar Bartneriaeth Adfywio Powys wedi sicrhau bod dealltwriaeth penderfynwyr o werth y celfyddydau i'r economi leol yn ehangach o lawer. Ar ben hyn, bu'r Fforwm yn cymryd rhan mewn gwaith asesu, nid yn unig ar gyfer *Cyfle i Greu/Chance to Create* (gweler uchod) ond hefyd mae'n cael ei gynrychioli ar y Grŵp Gweithredu Lleol sy'n cadw golwg ar raglen Echel 4, sef rhaglen sy'n cael ei chyflenwi gan Glasu, ac sy'n cynnwys cynlluniau grant ar gyfer *Diwylliant, Treftadaeth a Chynnyrch Lleol* a *Gwyliau a Digwyddiadau,* ymhlith llawer o bethau eraill.



Glasu have also commissioned research into Cultural and Creative Industries and Festivals and Events, with funds provided by the Powys Regeneration Partnership, and Powys Arts Forum, along with Powys Arts Service, are part of the steering group assisting that research. It is hoped that this will provide useful insights for ways in which the sector can be supported.

A meeting was held with the current Chief Executive of Arts Council of Wales, Nick Capaldi, and the ACW arts officers from Mid and North Wales (Amanda Loosemore and Sian Tomos, respectively), discussions which are proving fruitful for the future work of the Forum, and which will be on-going.

## 7. CONCLUSION

In some ways, this was a transitional year for the Forum, in which both major planning and consolidation took place, alongside the large initiative of *Chance to Create/Cyfle y Greu*. Foundations were laid and contacts made in planning the Conference, to take place in June 2010. The Forum has refined and consolidated its aims and working practices. Its focus on helping to build and support clusters of artists and organisations, to assist rather than impose, to develop partnerships and relationships, has been more firmly targeted during the year, but there is still a long way to go. Over the coming year, and in the future, it hopes to increase its membership base, to establish good relationships and methods of working with arts organisations throughout the county, and to develop its dialogue with the sector. Such dialogue is fundamental to the aims of the Forum, and is a priority in its strategic planning.

Virginia Graham
Chair, Powys Arts Forum

Bankers : HSBC Bank plc, The Cross, 1 Broad Street, Newtown, Powys, SY16
Registered address : Llethyr, Llysdinam, Llandrindod Wells, Powys LD1 6NB

Mae Glasu hefyd wedi comisiynu ymchwil i Ddiwydiannau Diwylliannol a Chreadigol a Gwyliau a Digwyddiadau, gyda chronfeydd a ddarperir gan Bartneriaeth Adfywio Powys, ac mae Fforwm Celf Powys, ynghyd â Gwasanaeth Celfyddydau Powys, yn rhan o'r grŵp llywio sy'n cynorthwyo â'r ymchwil honno. Y gobaith yw y bydd hyn yn rhoi mewnwelediadau defnyddiol ar gyfer ffyrdd y gellir cefnogi'r sector.

Cynhaliwyd cyfarfod â Phrif Weithredwr cyfredol Cyngor Celfyddydau Cymru, Nick Capaldi, a swyddogion celfyddydau CCC yng Nghanolbarth Cymru (Amanda Loosemore) a Gogledd Cymru (Sian Tomos). Mae'r trafodaethau hyn wedi bod yn fuddiol ar gyfer gwaith y Fforwm yn y dyfodol, a byddwn yn parhau â nhw.

## 7. CASGLIAD

Mewn rhai ffyrdd, roedd hon yn flwyddyn drosiannol i'r Fforwm, lle bu cyfnerthu a chynllunio o bwys, ochr yn ochr â'r fenter fawr *Cyfle i Greu/Chance to Create*. Gosodwyd sylfeini a lluniwyd cysylltiadau wrth gynllunio'r Gynhadledd, a gynhelir ym mis Mehefin 2010. Mae'r Fforwm wedi mireinio a chyfnerthu ei nodau a'i arferion gweithio. Ei ffocws yw adeiladu a chefnogi clystyrau o artistiaid a sefydliadau, cynorthwyo yn hytrach na gorfodi, a datblygu partneriaethau a pherthnasoedd, ac mae'r ffocws hwn wedi'i dargedu'n fwy cadarn yn ystod y flwyddyn, ond mae yna lawer iawn i'w wneud o hyd. Dros y flwyddyn sydd ar ddod, ac yn y dyfodol, mae'n gobeithio cynyddu sail ei aelodaeth, sefydlu perthnasoedd a dulliau da o weithio gyda sefydliadau'r celfyddydau ledled y sir, a datblygu ei ddeialog â'r sector. Mae deialog o'r fath yn hanfodol i nodau'r Fforwm, ac mae'n flaenoriaeth yn ei gynllunio strategol.

Virginia Graham
Cadeirydd, Fforwm Celf Powys

Bancwyr : HSBC Bank plc, Y Groes, 1 Stryd Lydan, Y Drenewydd, Powys, SY16
Cyfeiriad cofrestredig : Llethyr, Llysdinam, Llandrindod, Powys LD1 6NB



**Powys Arts Forum Limited**
( A company limited by guarantee)

**Report and Financial Statements**
**For the Year Ended 31 March 2010**

**Charity number 1119347**
**Company number  5985004**

**Powys Arts Forum Limited**
( A company limited by guarantee)

**Financial Statements**
**For the year Ended 31 March 2010**

**Contents** **Page**


| | |
|---|---|
| Legal and Administrative information | 1 |
| Report of the Management Committee | 2 |
| Statement of Financial Activities | 4 |
| Balance Sheet | 5 |
| Notes forming part of the financial statements | 6 |

**Powys Arts Forum Limited**
**Report of the Trustees for the year ended 31 March 2010**

The trustees present their report and finanical statements for the year ended 31 March 2010.

**Reference and Administrative Information**

| | |
|---|---|
| Charity name: | Powys Arts Forum Limited |
| Charity Registration number: | 1119347 |
| Company registration number: | 5985004 |
| Registered office and operational address: | Llethyr<br>Llysdinam<br>Llandrindod Wells<br>Powys<br>LD1 6NB |

**Trustees**

| | |
|---|---|
| Mrs V P Graham | Chair |
| Mr P A Freeman | Treasurer |
| Ms B E C McAskill | |
| Mrs E K Pugh | |
| Mrs M J Elster | |
| Mrs H James | |

**Secretary**

Mrs M J Elster

**Bankers**

HSBC Bank Plc
The Cross
1 Broad Street
Newtown
Powys
SY16 2LX

**Powys Arts Forum Limited**
**Report of the Trustees for the year ended 31 March 2010**

## Objectives & Activities

### Purpose and Aims

Our Charity's purpose as set out in the objects contained in the company's memorandum of association are to advance the education of the public in the arts principally, but not exclusively, in Powys by:

(a) promoting a greater understanding of the arts in Powys and elsewhere.
(b) increasing participation in the arts in Powys and elsewhere.
(c) by communicating views and needs of individuals and organisations in Powys involved in the arts.

### Summary of main activities

1. Autumn seminar was held providing artists with an opportunity to:-
a) understand the impact of public investment in an artist,s work.
b) understand uses of ICT in their work.
c) input into the development of the regeneration strategy for Powys.

2. Developing dialogues with the Arts Service at Powys County Council and the regional directors for Arts Council of Wales

3. Continuing to provide web-based information for artists and the general public and develop interactive features that allow artists to publish information about their own performances and exhibitions, as well as share information regarding opportunities.

### How our activities deliver public benefit

1. Through improving contact of the public with art and artists.
2. Helping to inform public policy about the arts.
3. Encouraging communication between artists with a view to enhancing both of the above.

**Powys Arts Forum Limited**
**Report of the Trustees for the year ended 31 March 2010**

## Structure, Governance and Management

### Governing Document

The organisation is a charitable company limited by guarantee, incorporated on 1st November 2006. The company was established under a Memorandum of Association which established the objects and powers of the charitable company and is governed under its Articles of Association. In the event of the company being wound up members are required to contribute an amount not exceeding £10.

### Recruitment and Appointment of Trustees

The directors of the company are also charity trustees for the purpose of charity law. Under the requirements of the Memorandum and Articles of Association trustees are elected at the Annual General Meeting. One third of all trustees retire from office at each Annual General Meeting based on length of service.

### Organisational Structure

The Board of Trustees met five times during the course of the year. The aim is to hold a minimum of four. Each meeting is presented with financial and operational reports.The meetings address current projects and and forward planning. Officers keep in regular contact both with each other and the other trustees in between meetings, principally by e-mail. Planning days are held approximately at 18 month intervals.

### Financial Review

The finances remain in a healthy position, with a prudent approach to keeping costs down and not committing to projects ahead of identifying ways of funding them. We are pleased to note that support from Powys County Council continues year on year, though on a basis of agreed projects rather than core funding. The core costs of the Forum are kept low as a matter of policy, as is the membership fee to ensure inclusivity.

The Reserves Policy is to hold £2,000 which represents 18 months of supporting the Forum at its current level of activity.

Approved by the trustees on 12th October 2010 and signed on its behalf by:

Philip Freeman, Treasurer

**Powys Arts Forum Limited**
**Statement of Financial Activities (Including Income & Expenditure Account) for the year ended 31 March 2010**

| | Unrestricted Funds 2010 | Restricted Funds 2010 | Total Funds 2010 | Total Funds 2009 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Incoming resources** | | | | |
| ***Incoming resources from generated funds:*** | | | | |
| Membership fees | 272 | | 272 | 170 |
| Donations | 2,000 | | 2,000 | |
| ***Investment Income*** | - | | - | 103 |
| ***Incoming resources from charitable activities:*** | | | | |
| Grant income | 5,000 | - | 5,000 | 5,600 |
| Project receipts | - | | - | 600 |
| **Total incoming resources** | 7,272 | - | 7,272 | 6,473 |
| **Resources expended** | | | | |
| ***Charitable activities:*** | | | | |
| Project Payments | 3,087 | - | 3,087 | 8,793 |
| ***Support costs:*** | | | | |
| Administration | 1,026 | - | 1,026 | 536 |
| Room hire | 486 | - | 486 | - |
| Marketing | 728 | - | 728 | - |
| Website costs | 999 | - | 999 | 671 |
| Bank charges | 52 | - | 52 | 68 |
| **Total resources expended** | 6,378 | - | 6,378 | 10,068 |
| **Net incoming resources** | 894 | - | 894 | - 3,595 |
| **Reconciliation of funds** | | | | |
| Total funds brought forward | 9,704 | - | 9,704 | 13,299 |
| **Total funds carried forward** | 10,598 | - | 10,598 | 9,704 |

The statement of financial activities includes all gains and losses in the year. All incoming resources and resources expended derive from continuing activities.

**Powys Arts Forum Limited**
**Balance Sheet as at 31 March 2010**

| | | 2010<br>£ | 2009<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Fixed Assets** | | - | - |
| **Current Assets** | | | |
| PCC Grant debtor | 5,000 | | 1,473 |
| Cash at Bank and in hand | | | |
| Current Account | 3,539 | | 4,510 |
| Deposit account | 2,097 | | 3,624 |
| Paypal account | 221 | | 97 |
| | 10,857 | | 9,704 |
| **Creditors: amounts falling due within one year** | 259 | | - |
| **Net Current Assets** | | 10,598 | 9,704 |
| **Net Assets** | | 10,598 | 9,704 |
| **Unrestricted funds** | | | |
| General funds | | 10,598 | 9,704 |
| **Restricted funds** | | - | - |
| **Total Funds** | | 10,598 | 9,704 |

These accounts have been prepared in accordance with the special provisions relating to small companies within Part 15 Companies Act 2006.

For the year ended 31 March 2010 the company was entitled to exemption from audit under section 477 Companies Act 2006; and no notice deposited under section under section 476.

The trustees acknowledge their responsibilities for  complying with the Companies Act 2006 with respect to accounting records and the preparation of Accounts.

Approved by the trustees on12th October 2010 and signed on its behalf by:

Philip Freeman, Treasurer

**Powys Arts Forum Limited**
**Notes forming part of the Financial Statements for the year ended 31 March 2010**

## 1 Accounting Policies

The principal accounting poicies are summarised below.

**(a) Basis of accounting**

The finanical statements have been prepared under the historical cost convention, and in accordance with the Companies Act 2006 and the Statement of Recommended Practice "Accounting and Reporting by Charities" issued in March 2005.

**(b) Fund accounting**

Unrestricted funds are available for use at the discretion of the trustees in furtherance of the general objectives of the charity.

Designated funds are unrestricted funds earmarked by the trustees for particular purposes.

Restricted funds are subjected to restrictions on their expenditure imposed by the donor or through the terms of an appeal.

**(C) Incoming resources**

All incoming resources are included in the statement of financial activities when the charity is entitled to the income and the amount can be quantified with reasonable accuracy. The follwing specific policies are applied for particular categories of income:

Voluntary income is recevied by way of grants , donations and membership fees and are included in full in the statement of financial activities when receivable.

Grants paid retrospectively subject to confirmation of prior expenditure are classified as unrestricted grants as in the opinon of the trustees on receipt of the grant the restriction has already been fullfiled.

Investment income is included when receivable.

**(d) Resources expended**

Expenditure is recognised on an accruals basis as a liability is incurred. Expenditure includes any VAT which cannot be fully recovered, and is reported as part of the expenditure to which it relates.

**Powys Arts Forum Limited**
**Notes forming part of the Financial Statements for the year ended 31 March 2010**

## 2 Donations

During the year the charity received a donation of £2,000 from Llysdinam Charitable Trust.

## 3 Incoming Resources from Activities to Further Charity's Objects

During the year the charity received a grant of £5,000 from Powys County Council.

## 4 Trustees Remuneration & Related Party Transactions

During the year a payment of £999 was made to Mr Phillip Freeman, at an hourly rate for updating the website and £1,000 for conference organisation.

In addition £155 was paid in travel expenses to trustees.